Gweiddi

## Tasg 1

# HEB FFEDOG EI FAM

1. Rhowch x wrth y ffaith gywir.

   Disgybl ym Mlwyddyn 7 ydy John Francis
   Disgybl ym Mlwyddyn 9 ydy John Francis
   Mae John Francis yn dechrau ei ail flwyddyn yn yr Ysgol Uwchradd
   Mae John Francis yn dechrau ei drydedd flwyddyn yn yr Ysgol Uwchradd

2. Sut roedd Dafydd yn teimlo pan ddeffrodd ei fam e?

   Nerfus
   Ofnus
   Cynhyrfus
   Blin

3. Beth oedd yn poeni Dafydd ynglŷn â mynd i'r ysgol newydd?

   Na fyddai lle iddo eistedd ar y bws
   Na fyddai ei ffrind yn yr un dosbarth ag ef
   Na fyddai'n deall pynciau cymhleth
   Na fyddai'n gwybod llys enwau'r athrawon

4. Pa un o'r ffeithiau hyn sydd DDIM YN GYWIR am y ferch gwallt coch

   Roedd hi'n fodlon achub cam plant eraill
   Roedd hi'n ffansïo Dafydd
   Doedd ganddi ddim ofn John Francis
   Roedd hi'n eistedd gyda'i ffrindiau ar y bws

5. Wedi cyrraedd yr ysgol mae Dafydd yn cael ei alw at y criw o fechgyn. Pa ddau air arall sy'n cael eu defnyddio am 'criw' yn y darn darllen?

   Clwstwr
   Poenydiwr
   Delwi
   Crugyn

6. Astudiwch y paragraffau hyn a dywedwch beth yw'r cyferbyniad rhwng plant Blwyddyn 7 a'r plant hŷn pan maent ar y bws.

Erbyn hyn roedd y bws yn llawn a phlant o bob math ac oedran yn siarad yn stwrllyd â'i gilydd, yn gynnwrf gwyllt wrth agosau at flwyddyn newydd o ysgol ac yn sôn yn hwyliog am y gwyliau haf. Pawb ond y rhai newydd. Roedd y rheiny wedi suddo i'w cregyn ac yn welw wrth ymyl y rhai hŷn hunan hyderus oedd yn gwybod popeth. Cyrhaeddodd y bws derfyn y daith ac aros.

Rhuthrodd y mawrion am y drws gan weiddi ar eu ffrindiau, yn falch o fod nôl unwaith eto. Cododd y plant newydd eu bagiau gloywon a gafel yn dynn yn eu cotiau newydd cyn baglu eu ffordd allan o'r bws.

| | PLANT BLWYDDYN 7 | PLANT HŶN |
|---|---|---|
| 1. | | |
| 2. | | |
| 3. | | |
| 4. | | |
| 5. | | |
| 6. | | |

a. Pa 4 peth fydd yn wahanol ym mywyd Dafydd o hyn ymlaen?

i)

ii)

iii)

iv)

b. Mae'r stori wedi cael ei hysgrifennu yn nhafodiaith y de. Dewiswch unrhyw 4 gair sy'n dangos hynny.

i)

ii)

iii)

iv)

7. Trafodwch pa mor effeithiol ydy teitl y stori.

8. Pa dechnegau mae’r awdur yn eu defnyddio i greu cyffro? Gallwch sôn am atalnodi, brawddegau, geirfa ac ati.